# Cynllun Ymateb i Dwyll

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi / Disgrifiad o'r Newid | Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau |
|---|---|---|
| Ionawr 2021 | Cyhoeddiad Cyntaf | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog Cyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio | Prif Swyddog Gweithredu | Cadeirydd, Grŵp Tasg Cydymffurfio | 25 Ionawr, 2021 |

*Adolygir y Drefn hon ymhen blwyddyn*

**Cynllun Prifysgol Bangor o ran Ymateb i Dwyll**

## 1. Diben

Diben y Cynllun Ymateb i Dwyll yw nodi'r cyfrifoldebau, y llinellau adrodd a'r prosesau y bydd Prifysgol Bangor yn eu gweithredu wrth ymchwilio i unrhyw honiad o dwyll neu afreoleidd-dra tybiedig. Bydd y Cynllun Ymateb yn sicrhau yr ymchwilir yn briodol i bob honiad ac adroddiad o dwyll neu afreoleidd-dra, y cânt eu hystyried mewn modd cyson a theg ac yr eir ati ar fyrder ac yn effeithiol i wneud y canlynol:

- dynodi cyfrifoldeb o ran ymchwilio i'r twyll;
- gweithredu i leihau'r risg o unrhyw golledion dilynol;
- lleihau unrhyw effeithiau gweithredol niweidiol;
- gweithredu cyfyngiad difrod (i asedau ac enw da);
- lle bo'n berthnasol, sefydlu a sicrhau tystiolaeth ar gyfer camau troseddol a / neu ddisgyblu;
- gwella tebygolrwydd a graddfa unrhyw adfer;
- cysylltu ag yswirwyr y Brifysgol; ac
- adolygu'r rhesymau dros y digwyddiad a gwella prosesau i liniaru rhag twyll yn y dyfodol.

Caiff pob digwyddiad yr adroddir amdano o dan y Cynllun Ymateb hwn ei drin yn gyfrinachol, cyn belled ag y bo modd gwneud hynny, yn unol â *Pholisi a Gweithdrefnau Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu’r Chwiban)* y Brifysgol.

Mae'r Cynllun Ymateb hwn yn cwmpasu aelodau staff, myfyrwyr, aelodau'r Cyngor, contractwyr neu wirfoddolwyr sy'n dod i gysylltiad â Phrifysgol Bangor.

## 2. Diffiniadau: Deddf Twyll 2006

Mae Deddf Twyll 2006 yn diffinio twyll drwy ei rannu'n dri dosbarth:

- Twyll drwy ymhoniad anwir;
- Twyll drwy fethu â datgelu gwybodaeth; a
- Twyll drwy gam-arfer swyddogaeth

## 3. Gweithredu

Dylid hysbysu’r Prif Swyddog Gweithredol yn ddi-oed am bob achos o dwyll gwirioneddol neu dybiedig, neu yn absenoldeb y Prif Swyddog, y Cyfarwyddwr Cyllid. Gall aelodau staff hefyd ddefnyddio *Polisi a Gweithdrefnau Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)* y Brifysgol i roi gwybod am eu pryderon.

Pan fo honiad o dwyll yn ymwneud â’r Is-ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredol a / neu'r Cyfarwyddwr Cyllid, dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth am y pryder.

Ar ôl derbyn honiad o dwyll, dilynir y weithdrefn yn adran 4. isod.

## 4. Ymchwilio

### [a] <u>Camau Cychwynnol</u>

Bydd y Prif Swyddog Gweithredu, neu enwebai, yn cydnabod derbyn unrhyw bryder a bydd yn amlinellu amserlen debygol unrhyw ymchwiliad. Ystyrir yr wybodaeth a gyflwynwyd er mwyn

penderfynu beth fydd ffurf yr ymchwiliad a gynhelir. Gallai hyn arwain at benderfyniad:

- i ymchwilio i'r mater yn fewnol, a allai gynnwys cyfeirio'r mater i'r Archwilydd Mewnol ymchwilio iddo;
- i gyfeirio'r mater at yr heddlu;
- i ymchwilio trwy fwy nag un o'r dulliau hyn neu drwy ddulliau eraill;

Mewn achosion eithriadol, mae gan y Prif Swyddog Gweithredol, neu'r enwebai, y rhyddid i benderfynu peidio ag ymchwilio na chymryd unrhyw gamau pellach. Mewn achos o'r fath, hysbysir yr achwynydd a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, yn unol â'r trefniadau adrodd yn adran 5 isod.

Os penderfynir ymchwilio i'r mater yn fewnol, bydd y Prif Swyddog Gweithredu, neu'r enwebai, yn penderfynu wedyn sut i wneud yn siŵr bod achos *prima facie* i'w ateb. Bydd yr ystyriaeth hon yn cynnwys penderfynu:

- pwy ddylai gynnal yr ymchwiliad, ac a oes angen cyngor allanol arbenigol;
- y drefn i'w dilyn;
- cwmpas yr adroddiad terfynol;
- lle gellir cadw'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymchwiliad, a diogelu'r wybodaeth (lle bo'n berthnasol).

[b] <u>Ymchwiliad Mewnol</u>

Ni fydd y sawl a dderbyniodd y gŵyn yn y lle cyntaf yn cynnal yr ymchwiliad a gofynnir i swyddog annibynnol arall yn y brifysgol, neu i'r sawl sy'n gweithredu fel yr Archwiliwr Mewnol gynnal yr ymchwiliad.

Bydd gofyn i'r Swyddog Ymchwilio gynnal yr ymchwiliad mor dringar a chyflym â phosib a chyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Gweithredu, neu'r enwebai.

Ar ôl derbyn yr adroddiad bydd y Prif Swyddog Gweithredol, neu'r enwebai, mewn ymgynghoriad ag aelodau eraill o'r Pwyllgor Gweithredu, fel sy'n berthnasol, yn penderfynu a oes angen i'r Brifysgol gymryd unrhyw gamau pellach. Gallai hyn gynnwys dilyn prosesau mewnol eraill a sefydlwyd gan gynnwys trefniadau disgyblu, cynnal ymchwiliad pellach neu benderfynu cyfeirio'r mater at awdurdod allanol (megis yr heddlu, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, neu gyrff eraill) i ymchwilio iddo ymhellach.

Dylid ystyried ar y cam yma pa un ai a ddylid cynnwys yswirwyr y Brifysgol, ac a ddylid dilyn gofynion gweithdrefn *Hysbysu'r Comisiwn Elusennau am Ddigwyddiad Difrifol*.

## 5. Atal Colled Pellach / Adfer Colledion

[a] <u>Atal Colled Pellach</u>

Os oes sail resymol o'r ymchwiliad cychwynnol dros amau aelod neu aelodau o staff o dwyll, bydd y Prif Swyddog Gweithredol, mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, yn penderfynu sut i atal colled pellach. Efallai y bydd hyn yn gofyn am atal yr aelodau staff hyd nes y cynhelir ymchwiliad pellach. Efallai y bydd angen cynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau TG a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Eiddo a Champws os oes amheuaeth y bydd atal aelod / aelod o staff yn arwain at ddinistrio neu gael gwared ar dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi camau disgyblu neu droseddol.

[b] Adfer Colledion

Mae adfer colledion yn un o brif amcanion unrhyw ymchwiliad twyll, ac mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad a wneir o dan y Cynllun Ymateb hwn, caiff swm unrhyw golled ei gyfrifo.

Os oes achos profedig i'w ateb dylid ceisio ad-dalu colledion ym mhob achos. Pan fo'r golled yn sylweddol, dylai'r Brifysgol gael cyngor cyfreithiol yn ddi-oed o ran yr angen i rewi asedau unigolyn trwy'r llys, hyd nes i'r ymchwiliad ddod i ben, a hefyd o ran y rhagolygon ar gyfer adennill colledion trwy'r llys sifil os yw unigolyn yn gwrthod ad-dalu'r swm.

Dylid diweddaru yswirwyr y Brifysgol o ran y prosesau hyn.

## 6. Gofynion Adrodd

Dylid rhoi gwybod yn ddi-oed i'r Is-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth am unrhyw ddigwyddiad sy'n rhan o gwmpas y Cynllun Ymateb hwn. At hyn, dylid paratoi adroddiad terfynol ar gyfer y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth sy'n amlinellu:

- Disgrifiad o'r honiad o dwyll a dderbyniwyd;
- Canlyniad unrhyw ymchwiliad mewnol;
- Hyd a lled unrhyw golled i'r Brifysgol a'r hyn a wnaed i leihau'r risg y bydd yn digwydd eto;
- Disgrifiad o'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r unigolyn / unigolion, a'r camau disgyblu a gymerwyd neu sydd ar y gweill;
- Unrhyw gamau troseddol a gymerwyd neu sydd ar y gweill;
- Camau a argymhellir i gryfhau'r gweithdrefnau a'r prosesau i liniaru yn erbyn twyll o'r fath;
- Unrhyw reoliadau neu bolisïau a dorrwyd, ac a argymhellir unrhyw ddiwygio.

Dylid hysbysu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am achosion sylweddol o dwyll neu afreoleidd-dra, fel y nodir yng Nghod Rheoli Ariannol y Cyngor Cyllido.

## 7. Polisïau Perthnasol Eraill

Dylid darllen y Cynllun Ymateb hwn ar y cyd â Pholisïau, Gweithdrefnau a Rheoliadau canlynol y Brifysgol:

- Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo
- Polisi a Gweithdrefnau Datgelu Er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban)
- Rheoliadau Ariannol
- Polisi Rhoddion a Lletygarwch
- Polisi ar Adrodd am Ddigwyddiad Difrifol i'r Comisiwn Elusennau

## 8. Adolygu'r Cynllun Ymateb i Dwyll

Caiff y Cynllun Ymateb i Dwyll ei adolygu ar ôl pob digwyddiad yr adroddir amdano, ac o leiaf bob tair blynedd.